# Tai cynhesach i bawb

Os os gennych incwm isel a biliau gwresogi uchel, gallech arbed arian drwy gyllid sydd ar gael oddi wrth ein cynllun Cymorth Cartrefi Clyd.

Gallwch ddefnyddio'r cyllid hwn ar gyfer cyflenwad nwy newydd i'ch cartref. Gan weithio â'n partneriaid, efallai y gallwn eich helpu i gael cyllid tuag at foeler nwy newydd sy'n arbed ynni a gwella'r ffordd y mae'ch cartref wedi'i insiwleiddio.

Gallwch ganfod gwybodaeth fuddiol am sut i ymgeisio am y cyllid hwn a'r ffurflen gais yn y daflen hon.



**EIN** GWASANAETH
PIBLINELLAU AC ARGYFWNG NWY

WALES&WEST
UTILITIES

# Rydym yma i'ch cadw'n ddiogel a chynnes

## Cadwch yn glyd, arbedwch arian

Yn Wales & West Utilities, rydym yn gweithio â Cymru Gynnes/Warm West i helpu mwy o bobl i fwynhau cartrefi cynnes sy'n arbed ynni ledled Cymru a de-orllewin Lloegr. Mae ein cynllun Cymorth Cartrefi Clyd ar gyfer deiliaid cartrefi preifat, tenantiaid preifat a thenantiaid sy'n rhentu oddi wrth awdurdod lleol neu gymdeithas dai. Mae ar gael ond ar gyfer eiddo sydd eisoes wedi'i adeiladu. Os gallech ei chael hi'n anodd talu costau cysylltiad nwy newydd neu insiwleiddio, hoffem helpu.

**Gallech fod yn gymwys i gael:**

- cyllid tuag at eich cysylltiad nwy;
- cymorth gyda gosod mesurydd nwy;
- cymorth gyda chost boeler nwy newydd neu system gwres canolog; a
- chymorth gydag insiwleiddio llofftydd a gwaliau ceudod;

**...os yw un, neu fwy, o'r canlynol yn berthnasol i chi.**

- Rydych yn derbyn budd-dal neilltuol ar sail prawf modd (budd-dal sy'n dibynnu ar eich incwm) ac yn bodloni amodau a bennwyd gan y Llywodraeth.
- Mae gan eich cartref gostau gwresogi uchel ac mae gennych chithau incwm isel, sy'n bodloni amodau a bennwyd gan y Llywodraeth.


## Sut i ymgeisio

- Os nad ydych eisoes wedi cael dyfynbris ar gyfer cysylltiad nwy newydd gennym, rhowch alwad ffôn inni ar **0800 912 2999**, neu ewch ar-lein i gael dyfynbris yn **www.wwutilities.co.uk**
- Pan gewch eich dyfynbris, cwblhewch a dychwelwch y ffurflen gais i Cymru Gynnes/Warm West (cofiwch ei llofnodi a'i dyddio!), neu cwblhewch ar-lein ar gyfer de-orllewin Lloegr yn www.warmwest.org.uk ac ar gyfer Cymru yn www.warmwales.org.uk.

## Unrhyw gwestiynau?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'ch cais am gyllid, mae Cymru Gynnes/Warm West yn fwy na bodlon helpu, ac felly ffoniwch nhw ar **01656 747623** i siarad ag un o'u tîm.





## Ychydig o gynghorion bach buddiol

- Dylai'r holl wybodaeth a roddwch ymwneud â'r cartref lle y bydd y nwy'n cael ei ddefnyddio.
- Dylai'r person sy'n gymwys ar gyfer y grant fyw yn y cartref.
- Dylai'r manylion a roddwch fod ar gyfer dull gwresogi ac effeithlonrwydd ynni cyfredol y cartref, cyn ichi fod wedi dechrau ar unrhyw waith.
- Peidiwch ag anghofion llofnodi a dyddio'r ffurflen. Nid oes yn rhaid ichi lofnodi cais e-bost.

I weld a fyddwch yn gymwys, bydd arnoch angen anfon gwybodaeth gyfoes atom am y cartref lle y bydd y nwy'n cael ei ddefnyddio. Mae arnom angen:

- tystiolaeth i ddangos eich bod yn bodloni amodau'r cynllun – gweler y blwch isod;
- manylion pwy biau'r cartref;
- manylion pwy sy'n byw yn y cartref; a
- manylion dull gwresogi ac effeithlonrwydd ynni cyfredol y cartref, cyn ichi fod wedi dechrau ar unrhyw waith.

| Tystiolaeth y mae arnom ei hangen | Dogfennau cyfredol i'w hanfon – anfonwch gopïau ble y bo'n bosibl, os gwelwch yn dda. |
|---|---|
| Manylion budd-daliadau ar sail prawf modd, os ydych yn derbyn y rhain. | Llythyr Dyfarniad Budd-dal Cyfredol – **POB** tudalen |
| Manylion Perchnogaeth Cartref – os ydych yn berchennog ar eich cartref. | • Atodlen Morgais<br>• Cofrestrfa tir neu<br>• Gweithredoedd Tŷ neu<br>• Llythyr cyfreithiwr yn profi mai **chi** sydd wedi prynu'r tŷ |
| Manylion y denantiaeth – os ydych yn denant i landlord preifat, i awdurdod lleol neu i gymdeithas dai. | Cytundeb Tenantiaeth |

## Beth fydd yn digwydd nesaf ?

Eich canllawiau cam wrth gam

- Bydd Cymru Gynnes/Warm West yn ysgrifennu atoch i adael ichi wybod a ydych yn gymwys. Os ydych yn gymwys, byddant yn anfon taleb grant atoch i'w rhoi tuag at gostau'r dyfynbris.
- Dychwelwch eich ffurflen inni sy'n derbyn dyfynbris, yn Wales & West Utilities, gyda'ch taleb neu unrhyw daliad (mae hyn yn angenrheidiol).
- Gadawn ichi wybod pa bryd y bydd gwaith yn dechrau - fel arfer o fewn tair i bedair wythnos o dderbyn eich taleb neu daliad a ffurflen dderbyn.
- Rhown hefyd gyfeirnod pwynt mesurydd (MPRN) ichi
- Bydd arnoch angen eich cyfeirnod pwynt mesurydd i greu cyfrif gyda chwmni ynni i brynu'ch nwy.

Os hoffech fwy o wybodaeth am osod eich mesurydd nwy, ffoniwch Cymru Gynnes/Warm West ar **01656 747623.**

## Mae'n wahanol yng Nghymru

Os ydych yn byw yng Nghymru, mae amodau sydd ychydig yn wahanol yn berthnasol.

Fe allech fod yn gymwys ar gyfer y cynllun os yw'r cyfan o'r canlynol yn berthnasol.

- Rydych yn berchennog ar eich cartref neu'n ei rentu'n breifat, neu'n byw mewn eiddo perchnogaeth a rennir.
- Rydych yn byw mewn cartref nad yw'n effeithlon o ran ynni (wedi'i raddio fel E, F neu G).
- Rydych chi neu rywun sy'n byw gyda gyda chi yn derbyn rhai budd-daliadau neilltuol ar sail prawf modd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am p'un ai yw hyn yn berthnasol i chi, mae Cymru Gynnes/Warm West yn fwy na bodlon helpu, ac felly ffoniwch nhw ar **01656 747623.**

# Mwy o gymorth i gadw'n gynnes

## Yma i chi

Y ni yw Wales & West Utilities, eich gwasanaeth piblinellau ac argyfwng nwy. Bob diwrnod, mae ein cydweithwyr medrus ac ymroddedig yn gwneud eu gorau glas i gadw'n 7.5 miliwn o gwsmeriaid yn ddiogel a chynnes, gyda rhwydwaith nwy y gallant ddibynnu arno a lefel o wasanaeth y gallant ymddiried ynddi.

Nid ydym yn gwerthu nwy. Yn lle hynny, defnyddiwn ein rhwydwaith helaeth o bibelli i gludo nwy i gartrefi a busnesau drwy Gymru a de-orllewin Lloegr i gyd. Ymatebwn i argyfyngau nwy, a buddsoddwn £2 filiwn yr wythnos ledled ein rhwydwaith, gan gysylltu eiddo newydd a disodli hen bibelli metel a gosod rhai newydd, parhaol yn eu lle. Mae arnom eisiau gwneud yn sicr bod y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu'n derbyn cyflenwad diogel a dibynadwy o nwy am genedlaethau i ddod.

**Mae'n wasanaeth hanfodol – ac yn wasanaeth rydym yn eithriadol falch o'i ddarparu.**

## Disgownt Cartref Cynnes

Dyma gynllun gan y llywodraeth i bobl sy'n ei chael hi'n anodd talu costau gwresogi. Gall gynnig gostyngiad ar eich bil trydan. Bydd arnoch angen cysylltu â'ch cyflenwr ynni i ganfod a allant eich helpu. Canfyddwch fwy o wybodaeth yn **www.gov.uk/the-warm-home-discount-scheme/what-youll-get**

## Taliad Tywydd Oer

Dyma gymorth ychwanegol os ydych yn cael rhai budd-daliadau neilltuol. Telir arian ichi pan fo'ch tymheredd lleol naill ai wedi'i gofnodi fel, neu os rhagwelir ei fod, yn sero gradd Celsius neu'n oerach ar gyfartaledd am saith niwrnod yn olynol. Nid oes arnoch angen gwneud cais gan y'i rhoddir yn awtomatig. Os na chewch eich taliad, dywedwch wrth eich Canolfan Bensiynau neu'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith. Canfyddwch fwy o wybodaeth yn **www.gov.uk/cold-weather-payment/overview**

## Taliadau Tanwydd y Gaeaf

Mae'r taliad hwn yn cynnig rhwng £100 a £300 yn ddi-dreth i helpu â'ch biliau gwresogi. Gofynnwch i'ch cyflenwr ynni a allant eich helpu. Canfyddwch fwy o wybodaeth yn **www.gov.uk/winter-fuel-payment/overview**

## Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni

Golyga Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni (ECO) bod yn rhaid i gyflenwyr ynni, yn ôl y gyfraith, wella effeithlonrwydd cartrefi. Os ydych ar incwm isel neu wedi'ch categoreiddio fel aelwyd agored i niwed, gallech elwa o gymorth â chostau gwresogi ac insiwleiddio newydd i'r cartref. Cysylltwch â'ch cyflenwr ynni i ganfod mwy o wybodaeth.

## Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaethol

Mae gan bob cyflenwr ynni (y cwmni y talwch eich biliau iddo) Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaethol. Mae'r gofrestr hon yn ein helpu ni a'ch cyflenwr ynni i wneud yn sicr ein bod yn gwirioneddol ofalu am y bobl sydd ei angen fwyaf. Canfyddwch fwy o wybodaeth yn **www.wwutilities.co.uk/services/safe-warm/**

## Tariffau Tanwydd

Mae hi yn wastad yn syniad da cymharu prisiau'ch cyflenwyr nwy a thrydan ac wedyn dewis y fargen orau i chi. Gwiriwch restr y Llywodraeth o safleoedd cymharu prisiau ynni sydd wedi'u cymeradwyo yma: **www.citizensadvice.org.uk/consumer/energy/energy-supply/**

## Grant Cyfleusterau i'r Anabl

Gallech fod yn gymwys ar gyfer grant gan eich cyngor lleol i wneud newidiadau i'ch cartref. Canfyddwch fwy o wybodaeth yn **www.gov.uk/disabled-facilities-grants/overview**


**Wales & West Utilities**
Wales & West House
Spooner Close
Celtic Springs
Coedcernyw
Casnewydd NP10 8FZ

www.wwutilities.co.uk
facebook.com/wwutilities
@WWUtilities


WARM HOME assistance
WARM WALES CYMRU GYNNES
WARM WEST

# Ffurflen gais am gyllid cysylltiad nwy

## Cwblhau ac anfon eich cais

Canfyddwch a ydych yn gymwys ar gyfer grant cyn ichi dalu.
Cwblewch adran 3, rhannau A i F, y ffurflen hon, os gwelwch yn dda.

Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r ffurflen hon, rhwygwch hi oddi wrth y daflen hon a'i phostio, ei e-bostio neu'i ffacsio i Cymru Gynnes/Gorllewin Cynnes.

**Warm Wales Cymru Gynnes CBC, Tŷ Llewelyn , Parc Busnes Glannau'r Harbwr, Harbourside Road, Port Talbot, SA13 1SB**

E-bost: Ar gyfer Cymru, cysylltwch ag **information@warmwales.org.uk** neu ar gyfer de-orllewin Lloegr, cysylltwch ag information@warmwest.org.uk

Ffacs: **01656 747621**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, ffoniwch Cymru Gynnes/Warm West ar: **01656 747623**, os gwelwch yn dda.



### Adran 1: I'w chwblhau gan Cymru Gynnes/Warm West

Case reference: ____ Voucher issued? Yes ☐ No ☐ Voucher number: ____

LIHC/FP: ____ Benefit or Nest: ____

### Adran 2: I'w chwblhau gan Wales & West Utilities

CRM reference: ____

Quote date: ____ Valid to: ____

| | Option 1 | Option 2 |
|---|---|---|
| Quote value not including VAT: | | |
| Quote value including VAT: | | |

## Adran 3: I'w chwblhau gennych chi (deiliad y cartref)

### Rhan A

Enw: ____ Teitl: Miss ☐ Mr ☐ Mrs ☐ Arall ____

Cyfeiriad: ____

Cod Post: ____

Ffôn: ____

E-bost: ____

Cyfeiriad ar gyfer y cyflenwad nwy:

Cod Post:

Ffôn:

**Ticiwch y blwch priodol, os gwelwch yn dda, ar gyfer pob cwestiwn yn Rhan A.**

**1.** A ydych yn byw yng nghyfeiriad y cyflenwad nwy? (Mae'n rhaid ichi fyw yn y cartref i hawlio grant.) Ydwyf ☐ Nac ydwyf ☐

**2.** A ydych ar hyn o bryd: yn adeiladu'ch cartref? Ydwyf ☐ Nac ydwyf ☐ yn adnewyddu'ch cartref? Ydwyf ☐ Nac ydwyf ☐

**3.** A ydych yn:

a. perchennog yr eiddo? Ydwyf ☐ Nac ydwyf ☐ (Os ydych, darparwch dystiolaeth, os gwelwch yn dda.)

b. deiliad yr eiddo (rydych yn byw yn y cartref ond nid ydych yn berchen arno nac yn ei rentu)? Ydwyf ☐ Nac ydwyf ☐ (Os ydych, darparwch dystiolaeth, os gwelwch yn dda.)

c. tenant preifat? Ydwyf ☐ Nac ydwyf ☐ (Os ydych, darparwch dystiolaeth, os gwelwch yn dda, o gytundeb y denantiaeth.)

ch. tenant cymdeithas dai neu awdurdod lleol? Ydwyf ☐ Nac ydwyf ☐ (Os ydych, darparwch dystiolaeth, os gwelwch yn dda, o gytundeb y denantiaeth.)

I denantiaid – Rhowch enw, cyfeiriad a rhif ffôn eich landlord inni, os gwelwch yn dda, yn y blwch isod.

| | |
|---|---|
| Enw:<br><br>Ffôn: | Cyfeiriad: |

**4.** Faint o bobl sy'n byw yn eich cartref a faint yw eu hoed?

| Person | Gwryw neu fenyw? | Oed (blynyddoedd) |
|---|---|---|
| 1 | | |
| 2 | | |
| 3 | | |

| Person | Gwryw neu fenyw? | Oed (blynyddoedd) |
|---|---|---|
| 4 | | |
| 5 | | |
| 6 | | |

**5.** A oes rhywun adref fel arfer yn ystod y dydd?

Oes ☐ Nac oes ☐

**6. a.** Beth yw incwm cyfunol blynyddol y bobl sy'n byw yn eich cartref? (Cynhwyswch, os gwelwch yn dda, yr holl gyflogau, budd-daliadau, pensiynau, ac unrhyw log ar gynilion – ar ôl Treth ac unrhyw daliadau Yswiriant Gwladol.)

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Incwm ar ôl treth: Wythnos, neu fis neu flwyddyn** | Pob wythnos £ | Pob mis £ | Pob blwyddyn £ |

**b.** Faint yw costau cynnal eich tŷ ac a ydych yn derbyn unrhyw gymorth i dalu'ch biliau cynnal tŷ?

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Costau cynnal tŷ bob blwyddyn** | Morgais £ | Rhent £ | Treth Cyngor £ |
| **Cymorth tai bob blwyddyn** | Cymorth â morgais £ | Budd-dal Tai £ | Gostyngiad Treth Cyngor £ |

**7.** Eglurwch, os gwelwch yn dda, os:

yw'ch cyfenw'n wahanol i'r enw ar eich tystiolaeth ☐

yw'ch cyfeiriad yn wahanol i'r cyfeiriad ar eich tystiolaeth ☐

**8. a.** Sut ydych yn talu am ynni'ch cartref? Ticiwch math o daliad, os gwelwch yn dda. Yn chwarterol ☐ Debyd Uniongyrchol ☐ Rhagdalu ☐

**b.** Faint ydych yn ei dalu am ynni'ch cartref mewn blwyddyn?

| Tanwydd presennol | Tâl sefydlog bob blwyddyn £ (mae hyn yn berthnasol) | Enw'r Cyflenwr Ynni |
|---|---|---|
| Trydan (safonol) | | |
| Trydan (Economy 7) | | |
| Olew | | |
| Nwy Petroliwm Hylifol | | |
| Tanwydd solet | | |
| Coed | | |

## Rhan B Datganiad Budd-daliadau

Ticiwch, os gwelwch yn dda, os ydych chi neu'ch cymar yn hawlio unrhyw un o'r budd-daliadau a ganlyn
(bydd arnom angen copïau o lythyrau'ch dyfarndal budd-daliadau).

- ☐ Gwarant Credyd Pensiwn
- ☐ Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm
- ☐ Credyd Treth Gwaith (mae terfyn enillion uchaf yn berthnasol)
- ☐ Credyd Treth Plant (mae terfyn enillion uchaf yn berthnasol)
- ☐ Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Incwm
- ☐ Cymhorthdal Incwm
- ☐ Credyd Cynhwysol
- ☐ Gostyngiadau Treth Y Cyngor (ac eithrio disgownt deiliadaeth person sengl o 25%)
- ☐ Lwfans Byw i'r Anabl
- ☐ Taliad Annibyniaeth Personol
- ☐ Lwfans Gweini
- ☐ Lwfans Gofalwr
- ☐ Lwfans Anabledd Difrifol
- ☐ Budd-dal Anabledd Anafiadau Difrifol
- ☐ Budd-dal Plant (Mae Trothwy Incwm yn berthnasol)
- ☐ Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel
- ☐ Lwfans Gweini Cyson
- ☐ Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog

## Rhan C

**1.** Pa bryd yr adeiladwyd eich cartref?

Cyn 1900 ☐ 1930 i 1949 ☐ 1967 i 1975 ☐ 1983 i 1990 ☐ 1996 i 2002 ☐ Ar ôl 2007 ☐
1900 i 1929 ☐ 1950 i 1966 ☐ 1976 i 1982 ☐ 1991 i 1995 ☐ 2003 i 2006 ☐

**2.** Sut fath o gartref sydd gennych? Tŷ ☐ Tŷ unllawr ☐ Fflat ☐ Fflat ddeulawr ☐

**3.** A yw'ch cartref yn: Tŷ ar wahân? ☐ Tŷ un talcen? ☐ Tŷ pen draw teras? ☐ Tŷ canol teras? ☐ Fflat? ☐

**4.** Lefel llawr (i fflatiau a fflatiau deulawr yn unig) Llawr uchaf ☐ Llawr canol ☐ Lefel y ddaear ☐ Islawr ☐

**5.** Faint o loriau sydd gan eich cartref? ____

**6.** Faint o ystafelloedd gwely sydd yna yn yr eiddo? ____

**7.** Faint o ystafelloedd byw ac ystafelloedd bwyta sydd yna yn yr eiddo? ____

**8.** Faint o'ch cartref sydd â ffenestri dwbl? Dim ☐ Rhai (hyd at 25%) ☐ Hanner (50%) ☐ Y Rhan Fwyaf (75%) ☐ Y Cyfan (100%) ☐

**9.** A yw fframiau'ch ffenestri wedi'u gwneud o? Coed? ☐ Plastig neu UPVC? ☐ Metel? ☐

**10.** Pa fath o do sydd gan eich cartref?

Fflat ☐ To ar oleddf ☐ To ar ongl gyda mynediad i lofft ☐
Ar oleddf – dim mynediad ☐ Ar oleddf (gwellt) ☐ Cartref arall uwchben ☐

**11.** Beth yw dyfnder insiwleiddiad y llofft?

½ modfedd neu 12mm ☐ 2.5 modfedd neu 75mm ☐ 8 modfedd neu 200mm ☐ 12 modfedd neu 300 milimedr neu fwy ☐ Ni wyddys ☐
1 modfedd neu 25mm ☐ 4 modfedd neu 100mm ☐ 10 modfedd neu 250mm ☐ Dim ☐
2 modfedd neu 50mm ☐ 6 modfedd neu 150mm ☐ 12 modfedd neu 300mm ☐ Insiwleiddiad to fflat ☐

**12.** A yw'ch muriau allanol yn:

brics solet? ☐ ceudod? ☐ fframwaith coed? ☐ concrit? ☐ cerrig? ☐ arall? ☐ (rhowch fanylion, os gwelwch yn dda)

**13.** Sut insiwleiddiad muriau sydd gennych?

Dim insiwleiddiad ☐ Insiwleiddiad ceudod wedi'i lenwi ☐ Insiwleiddiad mur mewnol ☐
Ni wyddys ☐ Fel y'i hadeiladwyd ☐ Insiwleiddiad allanol ☐

## Rhan CH

**1.** Beth yw'ch prif system wresogi yn eich cartref?

- Boeler safonol ☐
- Boeler cyddwyso ☐
- Boeler cyfunol ☐
- Boeler cyfunol sy'n cyddwyso ☐
- System aer cynnes ☐
- Gwresogyddion storio ☐
- Gwresogyddion neu danau mewn ystafelloedd ☐
- Arall ☐ (rhowch fanylion, os gwelwch yn dda)

**2.** Pa danwydd y mae'ch prif system wresogi'n ei ddefnyddio?

- Glo carreg ☐
- Glo (tân agored mewn grât) ☐
- Glo (gwresogyddion ystafell gau) ☐
- Asglodion coed ☐
- Boncyffion coed ☐
- Pelenni coed (swmpgyflenwad) ☐
- Nwy Petroliwm Hylifol neu nwy potel ☐
- Swmp-danc Nwy Petroliwm Hylifol ☐
- Olew gwresogi ☐
- Trydan – oriau brig ☐
- Trydan – allfrig (gwresogyddion storio dros nos) ☐

**3.** Pa reolyddion sydd gan eich system wresogi?

- Dim rheolyddion ☐
- Gwresogydd neu dân gyda thermostat ☐
- Rhaglennydd a thermostat ystafell ☐
- Falf thermostatig rheithiadur ☐
- Rheolydd gwefru â llaw ☐
- Rheolydd gwefru awtomatig ☐

**4.** Os oes gennych foeler, rhowch enw gwneuthuriad a rhif model eich boeler.

**5.** A yw'ch boeler:

- wedi'i osod ar wal? ☐
- yn sefyll ar y llawr? ☐
- boeler ôl? ☐

## Rhan D Mae cwestiynau 1 i 5 isod yn cyfeirio at sut rydych yn twymo'ch dŵr poeth yn eich cartref.

**1.** Sut rydych yn twymo'ch dŵr poeth yn eich cartref?

- O'r brif system wresogi (Boeler) ☐
- Boeler ôl ☐
- Gwresogi dŵr trydan ebrwydd ☐
- O wresogi eilaidd ☐
- Gwresogydd troch trydanol (allfrig) ☐
- Gwresogydd troch trydanol (oriau brig) ☐

**2.** Beth yw maint y silindr?

- Dim silindr ☐
- Canolig 131 i 170 litr (rhwng 90cm neu 36 modfedd i 135cm neu 54 modfedd o uchder) ☐
- Dim mynediad ☐
- Normal 90 i 130 litr hyd at 90cm neu 36 modfedd o uchder) ☐
- Mawr 170 litr (dros 54 modfedd o uchder) ☐

**3.** Pa fath o ddull insiwleiddio y mae'ch silindr yn ei ddefnyddio?

- Dim dull insiwleiddio ☐
- Dull insiwleiddio a osodwyd mewn ffatri (ewyn solet ) ☐
- Siaced tanc dŵr poeth ☐

**4.** Faint yw trwch yr insiwleiddiad o amgylch eich silindr?

- Dim ☐
- 12mm ☐
- 25mm (wedi'i osod mewn ffatri – melyn) ☐
- 35mm ☐
- 38mm ☐
- 50mm (wedi'i osod mewn ffatri – gwyrdd) ☐
- 80mm ☐
- 120mm ☐
- 160mm ☐

**5.** A oes gan eich silindr thermostat? Oes ☐ Nac oes ☐

## Rhan DD

A oes gennych dechnoleg adnewyddadwy yn eich cartref? Oes ☐ Nac oes ☐

Os oes, rhowch y math, os gwelwch yn dda. Panel Haul Ffotoffoltaig ☐ Solar thermol ☐ Pwmp gwres o'r awyr ☐ Arall ________

## Dylech chi, perchennog y cartref, lofnodi'r rhan hon.

**Cofiwch ddarllen y datganiad hwn a'i lofnodi, os gwelwch yn dda. Ni allwn brosesu'r ffurflen heb lofnod.**
Rhoddaf ganiatâd i Cymru Gynnes/Warm West a'ch partneriaid ddefnyddio'r wybodaeth ar y ffurflen hon er diben y prosiect hwn. Gall Wales & West Utilities gofnodi a defnyddio'r wybodaeth hon i adrodd wrth Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (OFGEM) o dan y rheoliadau cyfredol. Ni roddir yr wybodaeth hon i gwmnïau nac i asiantaethau eraill, a dalir arni neu fe'i defnyddir yn unol â Deddf Diogelu Data 2018.

Ticiwch y blwch, os gwelwch yn dda, os hoffech dderbyn unrhyw wybodaeth am fesurau arbed ynni neu grantiau a all fod ar gael yn y dyfodol. ☐

Eich llofnod

Dyddiad